# Uned 11: Sgiliau Alldeithiau

## Canllawiau cyflwyno

### Mynd i'r afael â'r uned

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i gynllunio alldeithiau, cyfranogi ynddynt a myfyrio arnynt.

Bydd y dysgwyr yn ymchwilio i alldeithiau yn y gorffennol, gan ddysgu am hanes yr unigolion a'r timau enwocaf a mwyaf llwyddiannus. Byddan nhw hefyd yn astudio alldeithiau llai hysbys sydd wedi newid sut mae alldeithiau modern yn cael eu cynllunio a'u cynnal. Bydd y dysgwyr yn dysgu'r sgiliau angenrheidiol i gynllunio a chynnal alldaith ac yn cael cyfle i arddangos y sgiliau hynny trwy gynllunio, cynnal ac adolygu eu halldaith eu hunain. Ar ôl cwblhau eu halldaith, bydd y dysgwyr yn adolygu sut buon nhw'n ei chynllunio a'i chynnal.

Gallech chi gyflwyno'r uned hon gan ddefnyddio cyfuniad o theori (i gyflwyno'r dysgwyr i'r topigau a restrir yng nghynnwys yr uned), ymweliadau, siaradwyr gwadd (i alluogi'r dysgwyr i gymhwyso'r cysyniadau damcaniaethol a ddysgwyd) a sesiynau ymarferol lle gall y dysgwyr roi'r theori a ddysgwyd ar waith.

### Cyflwyno'r nodau dysgu

**Nod dysgu A: Archwilio datblygiad gwahanol alldeithiau a'u pwrpasau**

Efallai mai astudio yn y dosbarth neu ymchwil gan y dysgwyr fydd y ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno'r elfen hon o'r uned. Mae cyfoeth o adnoddau ysgrifenedig yn ogystal ag enghreifftiau o ail-greu llawer o alldeithiau enwog ar ffurf rhaglenni dogfen a dramâu, ac mae nifer aruthrol o adnoddau ar wefannau. Gellid defnyddio trafodaeth dan arweiniad y tiwtor i gyflwyno'r topig ac i wneud y dysgwyr yn ymwybodol o'r gwahanol fathau o alldeithiau a'u pwrpasau. Gallech ddefnyddio cyfuniad o gyflwyniadau dan arweiniad y tiwtor ac ymchwil y dysgwyr eu hunain i ymchwilio i alldeithiau hanesyddol a datblygu dealltwriaeth o'r hyn a ddysgwyd trwyddynt.

**Nod dysgu B: Cynllunio a chynnal alldaith i gyflawni amcanion penodedig**

Er mwyn i'r dysgwyr ddeall alldeithiau'n llawn, dylai fod ganddynt fynediad at gyfarpar gwersylla, llywio a diogelwch. Os nad oes ganddynt eu cyfarpar eu hunain, dylai'r dysgwyr gael mynediad at gyfarpar o safon addas. Dylid gwneud y dysgwyr yn ymwybodol o'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gefnogi alldeithiau, er enghraifft trafnidiaeth a chyllid. Dylai fod gan ganolfannau staff profiadol a chymwys i gyflwyno'r uned, a dylent gael hyd i fannau digon anghysbell i'r alldeithiau gael eu cynnal. Bydd yn ddefnyddiol, er nad yw'n hanfodol, bod ardaloedd addas ar gyfer alldeithiau yn agos gerllaw. Os nad oes, rhaid darparu ar gyfer mynd â'r dysgwyr ymhellach i ffwrdd.

Os yw'r dysgwyr i gynnal alldaith yn llwyddiannus, bydd angen amser arnynt i ddysgu ac ymarfer yr holl sgiliau cysylltiedig â'r alldaith honno. Gellir cyflawni hynny trwy deithiau byr rheolaidd sy'n datblygu'n alldeithiau hwy am ddiwrnod ac yn y pen draw dros nos. Ar gyfer y teithiau byrrach, efallai bydd canolfannau am ddefnyddio'r amgylchedd lleol. Dylid rhoi cyfleoedd rheolaidd i'r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau alldaith i ddatblygu eu sgiliau, eu technegau a'u gwybodaeth ddamcaniaethol.

Bydd angen i'r dysgwyr ddysgu am y ffactorau mae angen iddynt eu hystyried wrth gynllunio'u halldaith. Dylent ystyried pwrpas yr alldaith, unrhyw ganiatâd sy'n angenrheidiol, logisteg, llety, bwyd a chyllid. Dylent fynd ymlaen i feddwl am y sgiliau fydd yn ofynnol, megis sgiliau llywio, technegau crefft gwersylla, sgiliau teithio a thechnegau cysylltiedig â'r tywydd. Yn olaf, rhaid iddynt ystyried sut mae gwneud yr alldaith yn ddiogel trwy ddysgu am asesiadau risg, cymorth cyntaf, gwirio'r tywydd a gwerthuso ffitrwydd.

### Nod dysgu C: Adolygu eich gwaith eich hun yn cynllunio a chynnal alldaith

Ar gyfer Nod dysgu C, bydd angen i'r dysgwyr adolygu sut buont yn cynllunio ac yn cynnal eu halldaith. Dylai'r dysgwyr ddefnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso'u perfformiad eu hunain ac eraill. Gallai hynny olygu pennu eu nodau a'u disgwyliadau eu hunain a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer gwella a dysgu yn y dyfodol. Bydd y dysgwyr hefyd yn elwa o ddadansoddi perfformiadau ei gilydd a rhoi adborth. Dylai tiwtoriaid, hyfforddwyr ac arweinwyr alldeithiau hefyd fod yn barod i roi adborth.



Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Model asesu

<table>
<tr><th>Nod dysgu</th><th>Meysydd cynnwys allweddol</th><th>Dull asesu a argymhellir</th></tr>
<tr><td>A Archwilio datblygiad gwahanol alldeithiau a’u pwrpasau</td><td>A1 Mathau o alldeithiau<br>A2 Pwrpasau alldeithiau<br>A3 Ffactorau sy’n effeithio ar ddatblygiad alldeithiau</td><td>Cyflwyniad ar y gwahanol fathau o alldeithiau a’r ffactorau sy’n gysylltiedig â datblygu ystod o alldeithiau.</td></tr>
<tr><td>B Cynllunio a chynnal alldaith i gyflawni amcanion penodedig</td><td>B1 Agweddau allweddol ar gynllunio alldaith<br>B2 Ystyried iechyd, diogelwch a risg wrth gynllunio alldaith<br>B3 Sgiliau a thechnegau sy’n angenrheidiol ar gyfer cynnal alldaith</td><td rowspan="2">Portffolio o dystiolaeth, i gynnwys:<br>• manylion yr alldaith<br>• cerdyn llwybr/map wedi’i anodi<br>• asesiad risg<br>• y ffactorau a gafodd eu hystyried wrth gynllunio<br>• adolygiad ysgrifenedig o gynllun gwelliant personol yr alldaith.</td></tr>
<tr><td>C Adolygu eich gwaith eich hun yn cynllunio a chynnal alldaith</td><td>C1 Adolygu’r alldaith a gynhaliwyd, gan gynnwys y cyfnod cynllunio<br>C2 Cynllunio datblygiad ar gyfer alldeithiau’r dyfodol</td></tr>
</table>

## Canllawiau asesu

Mae'r asesiad a argymhellir ar gyfer yr uned hon yn cynnwys dau aseiniad. Mae'r aseiniad cyntaf yn canolbwyntio ar Nod dysgu A, a'r ail ar Nodau dysgu B ac C.

Ar gyfer yr aseiniad cyntaf, gallech chi ofyn i'r dysgwyr gynhyrchu cyflwyniad ar y gwahanol fathau o alldeithiau a'u pwrpasau, a'r ffactorau sy'n gysylltiedig â datblygu ystod o alldeithiau. Dylai'r cyflwyniad gynnwys peth gwybodaeth am alldeithiau hanesyddol a pherthnasedd alldeithiau mewn gyrfa yn y gwasanaethau sydd â gwisg swyddogol.

Ar gyfer yr ail aseiniad, dylai'r dysgwyr gynhyrchu portffolio o dystiolaeth sy'n cofnodi sut cynlluniwyd a chynhaliwyd eu halldaith eu hunain. Dylai hyn gynnwys manylion yr alldaith, cerdyn llwybr/map wedi'i anodi, asesiad risg, y ffactorau a ystyriwyd wrth gynllunio, ac adolygiad ysgrifenedig o'u halldaith, gan gynnwys cynllun gwella personol.

Mae Briffiau Aseiniad Awdurdodedig ar gyfer Nod dysgu A a Nodau dysgu B ac C ar gael ar ein gwefan.


Pearson BTEC Cenedlaethol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol – Canllaw Cyflwyno – Argraffiad 1 – Mawrth 2022 © Pearson Education Limited 2022

## Cychwyn arni

**Yma cewch fan cychwyn ar gyfer un dull o gyflwyno'r uned, wedi'i seilio ar y dull asesu a argymhellir yn y fanyleb.**

| **Uned 11: Sgiliau Alldeithiau** |
|---|
| **Cyflwyniad**<br>Bydd yr uned hon yn galw am ddealltwriaeth o alldeithiau a'r sgiliau, y technegau a'r dysgu datblygiadol y mae modd eu cyflawni trwy gyfranogi mewn alldeithiau. Mae'n uned ymarferol, a dylid ei chyflwyno mewn amgylchedd priodol gan ddefnyddio cyfarpar addas.<br>Bydd yr uned hon yn galluogi'r dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau a chaffael yr wybodaeth angenrheidiol i arwain tîm ar alldaith. Mae llawer o'r sgiliau hyn yn drosglwyddadwy i dasgau eraill a gyflawnir yn y gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. |
| **Nod dysgu A: Archwilio datblygiad gwahanol alldeithiau a'u pwrpasau** |
| Amlinellwch natur y topigau a'r math o asesiad y bydd disgwyl i'r dysgwyr ei gwblhau. Asesir yr uned hon â dau aseiniad crynodol. Bydd angen i'r dysgwyr fedru archwilio datblygiad gwahanol alldeithiau a'u pwrpasau, cynllunio a chynnal alldaith, gan ystyried yr holl risgiau, ac adolygu sut buon nhw'n cynllunio ac yn cynnal eu halldaith.<br>Gallech chi gychwyn trwy gyflwyno'r dysgwyr i ddatblygiad gwahanol alldeithiau a'u pwrpasau, gyda thrafodaeth yn y dosbarth yn dilyn i'w harchwilio. Crëwch fap meddwl ar y bwrdd wrth i'r drafodaeth fynd yn ei blaen, i helpu'r dysgwyr i gymryd nodiadau defnyddiol.<br>Mewn parau, gofynnwch i'r dysgwyr gynhyrchu cyflwyniad am y gwahanol fathau o alldeithiau a'u pwrpasau. Dylent roi enghreifftiau o wahanol fathau o alldeithiau a datblygu hynny â gwybodaeth am bwrpas/nodau'r alldeithiau. Mae gan bob alldaith nod ac amcanion i'w gwneud yn ddichonadwy: e.e. addysgiadol, milwrol, gwyddonol, adloniant, masnachol. Dylai'r dysgwyr ystyried ffurf alldeithiau (hirdeithio (*trekking*), hwylio etc) a sut maent yn cael eu hariannu. Dylid cyfeirio at y cyfarpar a'r dechnoleg sy'n ofynnol. Dylai'r dysgwyr ymchwilio i alldeithiau hanesyddol, myfyrio ar eu profiadau eu hunain, a defnyddio gwybodaeth am gynllunio alldeithiau i helpu i gynhyrchu eu cyflwyniad. Yna gall y dysgwyr gyflwyno'u canfyddiadau i'r grŵp.<br>Mae angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddatblygiad alldeithiau a deall sut mae alldeithiau wedi dod yn fwy hygyrch dros amser. Dylent ystyried sut mae'r math o alldeithiau a'u pwrpas wedi newid wrth i dechnoleg ddatblygu, ac effaith alldeithiau hanesyddol ar alldeithiau 'modern' heddiw. Gallech ddefnyddio cyflwyniad dan arweiniad y tiwtor i gyflwyno gwybodaeth am alldeithiau hanesyddol (e.e. alldaith begynnol Shackleton, Hillary ac Everest, neu Earhart yn hedfan dros Fôr Iwerydd).<br>Gallech ddefnyddio asesiad ffug i wirio dealltwriaeth y dysgwyr trwy ofyn iddyn nhw gynhyrchu taflen am alldeithiau hanesyddol a sut mae'r rheiny wedi effeithio ar alldeithiau heddiw.<br>Gallech chi drefnu ymweliad â chanolfan Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur lle gall y dysgwyr arsylwi technolegau newydd yn cael eu defnyddio a dod i ddeall sut mae'r technolegau hynny'n galluogi mwy o gyfranogwyr i gael mynediad i gyfleoedd am alldeithiau. |

Gallech chi ofyn i siaradwr gwadd ddod i mewn i drafod eu profiad o alldeithiau a phwysigrwydd alldeithiau i'r gwasanaethau amddiffyn sydd â gwisg swyddogol (meithrin gwaith tîm, caniatáu i briodweddau arweinyddiaeth gael eu datblygu a'u harddangos, datblygu sgiliau rhyngbersonol a gwydnwch). Dylai'r siaradwr fedru esbonio sut mae eu rôl mewn gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol wedi elwa o alldeithiau. Dylai'r siaradwr gwadd fod yn rhywun sy'n gweithio mewn gwasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol ar hyn o bryd, neu sydd wedi gweithio mewn un, ac sydd wedi ymwneud ag alldeithiau, yn ogystal â chynllunio alldeithiau.

Gallech chi wahodd siaradwr gwadd i ddod atoch o elusen sydd wedi ymwneud â chynllunio heriau codi arian ac elusennol (er enghraifft hirdaith i wersyll sylfaen (*base-camp*) Everest, dringo Kilimanjaro, cylchdaith ar gefn beic o Fietnam i Cambodia, hirdaith Wal Fawr Tsieina). Dylai'r siaradwr gwadd drafod pwysigrwydd cynllunio alldeithiau a sut gall elusennau a'r bobl sy'n ymwneud â nhw elwa o alldeithiau.

Dylid caniatáu amser i'r dysgwyr ysgrifennu nodiadau a pharatoi ar gyfer Aseiniad 1. (Mae Aseiniad 1 yn cwmpasu Nod dysgu A.)

**Nod dysgu B: Cynllunio a chynnal alldaith i gyflawni amcanion penodedig**

Cyflwyno'r dysgwyr i gynllunio a chynnal alldaith a'r risgiau mae angen eu hystyried. Mae angen i'r dysgwyr ddeall bod rhaid sicrhau nod i'r alldaith a bod rhaid i bawb fod â chyfarpar priodol ar gyfer yr alldaith.

Gallech chi ofyn i siaradwr gwadd drafod y ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio alldaith. Gallai'r siaradwr gwadd fod yn rhywun o ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur neu o wasanaeth amddiffyn sydd â gwisg swyddogol. Dylen nhw ymwneud â chynllunio a chynnal alldeithiau. Dylen nhw drafod sut mae sicrhau bod alldaith yn addas at ei phwrpas. Er enghraifft, pa weithgareddau yr ymgymerir â nhw yn ystod yr alldaith, oes yna unrhyw gyfyngiadau oedran ar gyfranogwyr, a ble dylid cynnal yr alldaith? Dylai'r siaradwr archwilio sut mae alldaith yn ceisio cyflawni ei hamcanion.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd gan y siaradwr gwadd, gall y dysgwyr weithio mewn grwpiau bach i archwilio cynllunio'u halldaith eu hunain. Dylai'r dysgwyr ddewis pwrpas, ystyried sut byddan nhw'n gwneud eu halldaith yn briodol ar gyfer y pwrpas, ac yna nodi'r elfennau pellach o gynllunio y bydd angen iddyn nhw roi sylw iddynt er mwyn sicrhau bod eu halldaith yn llwyddiant. Rhaid iddynt ystyried gofynion caniatâd, logisteg, llety, bwyd, maeth a hylif, cyfarpar personol a grŵp a chyllid (Topig B1). Dylai'r dysgwyr hefyd gynnwys ffactorau pellach megis iechyd a diogelwch, asesiad risg, cymorth cyntaf, gwiriadau tywydd a ffitrwydd (Topig B3).

Dylech roi cyfle i'r dysgwyr ddysgu ac ymarfer y sgiliau a'r technegau sy'n angenrheidiol i gynnal alldaith. Rhaid i'r dysgwyr gwblhau'r hyfforddiant gofynnol ac alldeithiau ymarfer cyn rhoi cynnig ar eu halldaith eu hunain. Rhaid i'r dysgwyr a'u tîm gynllunio a threfnu alldaith. Rhaid bod tri i wyth o bobl yn y tîm. Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn gallu cyflawni sgiliau a thechnegau llywio, technegau crefft gwersylla, sgiliau teithio ac unrhyw dechnegau eraill lefel uwch a allai fod yn berthnasol i'w halldaith.

Er mwyn i'r dysgwyr gynnal eu halldeithiau dylai fod ganddynt fynediad at gyfarpar gwersylla, llywio a diogelwch. Os nad oes ganddynt eu cyfarpar eu hunain, dylai'r dysgwyr gael mynediad at gyfarpar o safon briodol i'w fenthyg. Dylid gwneud y dysgwyr yn ymwybodol o'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gefnogi alldeithiau, er enghraifft trafnidiaeth a chyllid. Dylai fod gan ganolfannau staff profiadol a chymwysedig yn cyflwyno'r uned, a dylent gael hyd i fannau digon anghysbell ar gyfer cynnal alldeithiau. Bydd yn ddefnyddiol os yw'r lleoliadau hyn yn agos gerllaw. Fel arall, bydd rhaid darparu ar gyfer mynd â'r dysgwyr ymhellach i ffwrdd.

| |
|---|
| Os yw’r dysgwyr i gynnal alldaith yn llwyddiannus, bydd angen amser arnyn nhw i ddysgu ac ymarfer yr holl sgiliau sy’n gysylltiedig â’r alldaith honno. Gellir cyflawni hynny trwy deithiau rheolaidd byr sy’n datblygu’n alldeithiau diwrnod hwy ac yn y pen draw yn rhai dros nos, os oes modd. Yn achos y teithiau byrrach, efallai bydd canolfannau am ddefnyddio’r amgylchedd lleol. Dylid rhoi cyfleoedd rheolaidd i’r dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau alldaith i ddatblygu eu sgiliau, eu technegau a’u gwybodaeth ddamcaniaethol.<br><br>Gallech ddefnyddio asesiad ffug i wirio dealltwriaeth y dysgwyr trwy ofyn iddyn nhw gynhyrchu adroddiad ar y ffactorau mae angen iddyn nhw eu hystyried wrth gynllunio alldaith. Dylai’r adroddiad gynnwys gwybodaeth sy’n cwmpasu iechyd a diogelwch, asesiad risg, cymorth cyntaf, lefelau ffitrwydd a gwiriadau tywydd er mwyn cynllunio alldaith yn effeithiol.<br><br>Dylid caniatáu amser i’r dysgwyr ysgrifennu nodiadau a pharatoi ar gyfer Aseiniad 2. (Mae Aseiniad 2 yn cwmpasu nodau dysgu B ac C.) |
| **Nod dysgu C: Adolygu eich gwaith eich hun yn cynllunio a chynnal alldaith** |
| Cyflwynwch y dysgwyr i bwrpas adolygu sut buon nhw’n cynllunio ac yn cynnal eu halldaith. Gallai’r dysgwyr ddefnyddio trafodaeth yn y dosbarth i ganfod nod yr adolygu. Dylen nhw ystyried pwysigrwydd dysgu o unrhyw gamgymeriadau a wnaed yn ystod y broses gynllunio. Dylai’r dysgwyr roi adborth i’w gilydd wrth werthuso eu halldeithiau. Dylent fod yn barod hefyd i dderbyn adborth gan diwtoriaid, hyfforddwyr ac arweinwyr alldeithiau.<br><br>Dylech chi ddangos enghreifftiau o adolygiadau alldeithiau i’r dysgwyr a thrafod dulliau o gasglu adborth. Mae angen i’r dysgwyr fedru casglu adborth o wahanol ffynonellau (e.e. oddi wrth athrawon, hyfforddwyr, arsylwyr, cymheiriaid) er mwyn iddyn nhw fedru adnabod eu cryfderau personol a’u meysydd personol ar gyfer gwelliant.<br><br>Gallai’r dysgwyr gynnal adolygiad grŵp ar alldaith mae pawb ohonynt wedi’i chyflawni. Gallent wneud hyn mewn parau neu grwpiau bach a nodi cryfderau cyffredin a meysydd i’w gwella. Dylent archwilio’r defnydd o sgiliau meddal, priodoldeb yr alldaith, ac unrhyw faterion iechyd a diogelwch.<br><br>Cyflwynwch y dysgwyr i gynllunio datblygiad alldeithiau yn y dyfodol trwy ddefnyddio trafodaeth yn y dosbarth. Dylai’r dysgwyr nodi unrhyw sgiliau a nodweddion y mae angen eu hymarfer yn fwy, a dethol nodau, targedau, bwriadau a cherrig milltir, yn ogystal â rhwystrau posibl i’w datblygiad.<br><br>Gofynnwch i’r dysgwyr gynllunio’u datblygiad eu hunain. Rhaid iddyn nhw nodi eu cryfderau a meysydd ar gyfer gwelliant, a chynhyrchu targedau CAMPUS a fydd yn eu galluogi i gynllunio ar gyfer alldeithiau yn y dyfodol. Rhaid i’r dysgwyr hefyd ystyried adnoddau ac unrhyw rwystrau posibl i ddatblygiad.<br><br>Dylid caniatáu amser i’r dysgwyr ysgrifennu nodiadau a pharatoi ar gyfer Aseiniad 2. (Mae Aseiniad 2 yn cwmpasu nodau dysgu B ac C.) |

### Manylion y cysylltiadau ag unedau a chymwysterau BTEC eraill

Mae'r uned hon yn cysylltu â'r canlynol:

- Uned 4: Paratoad Corfforol, Iechyd a Llesiant
- Uned 5: Gwaith Tîm, Arweinyddiaeth a Chyfathrebu yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 10: Sgiliau ar gyfer Gweithgareddau Awyr Agored a'r Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol
- Uned 12: Datblygu Rhaglenni Ffitrwydd Personol
- Uned 19: Datblygiad Proffesiynol yn y Gwasanaethau Amddiffyn sydd â Gwisg Swyddogol

## Adnoddau

Yn ogystal â'r adnoddau a restrir isod, mae cyhoeddwyr yn debygol o gynhyrchu gwerslyfrau a gymeradwywyd gan Pearson sy'n cefnogi'r uned hon o'r BTEC Cenedlaethol. Edrychwch ar wefan Pearson (http://qualifications.pearson.com/endorsed-resources) i gael rhagor o wybodaeth wrth i deitlau gael eu cymeradwyo.

**Gwerslyfrau**

Bagshaw, C – *The Ultimate Hillwalking Skills Handbook* (David a Charles, 2006) ISBN 9780715322543

Barton, B – *Safety, Risk and Adventure in Outdoor Activities* (Paul Chapman Publishing, 2006) ISBN 9781412920780

Duff, J a Gormly, P – *First Aid and Wilderness Medicine* (Cicerone Press, 2007) ISBN 9781852845001

Hill, P – *Mountain Skills Training Handbook* (David a Charles, 2004) ISBN 9780715331651

Judd, P a Brown, S – *Getting to Grips with GPS* (Cordee, 2006) ISBN 9781904207382

Langmuir, E – *Mountain Craft and Leadership* (MLTE, 2004) ISBN 9781850602958

Lansing, A – *Endurance* (Carroll a Graf, 2004) ISBN 9780786706211

Ogilvie, K, Noble, L – *Leading and Managing Groups in the Outdoors* (Institute of Outdoor Learning, 2005) ISBN 9781898555094

**Cyfnodolion**

*Canoe Focus*

*Climber*

*The Great Outdoors*

*Summit*

**Gwefannau**

Cyngor Mynydda Prydain https://www.thebmc.co.uk/

The Institute for Outdoor Learning https://www.outdoor-learning.org/

Mountain Leader Training England https://www.mountain-training.org/